


Ail Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Bwrdeistref
Sirol Caerffili 2020-2035

# EB12 Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol

***Hydref 2022***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# EB12 De-ddwyrain Cymru – Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (Cam 1)

# Adroddiad Terfynol – Crynodeb Gweithredol

# Tachwedd 2022

# Wedi ei lunio gan JBA Consulting

## Crynodeb Gweithredol

### Cefndir y prosiect

Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ('yr Asesiad') Cam 1 hwn wedi'i gomisiynu gan grŵp o un ar ddeg o awdurdodau cynllunio lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys:

Cyngor Dinas Casnewydd,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,

Cyngor Caerdydd,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,

Cyngor Sir Fynwy,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,

Cyngor Bro Morgannwg, ac

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Fel arfer, mae asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd yn cael eu cwblhau mewn tri cham, gyda lefel gynyddol o fanylder yn ofynnol yn y dadansoddiad ar bob cam.

Mae'r Asesiad Cam 1 hwn yn astudiaeth ddesg sy'n coladu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes i gynnal asesiad eang o beryglon llifogydd posibl ledled ardal gyfan yr astudiaeth o bob ffynhonnell llifogydd. Mae'r astudiaeth yn nodi ardaloedd sydd â risg uchel posibl o lifogydd, yn ogystal â darparu manylion am ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol ac unrhyw fanylion am unrhyw strwythurau neu weithdrefnau rheoli perygl llifogydd sy'n bresennol.

Hefyd, mae'r Asesiad yn darparu gwybodaeth am y cyfleoedd i arafu a storio dŵr fel rhan o gynlluniau rheoli llifogydd naturiol yn ogystal â chanllawiau ar weithredu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a rheoli perygl llifogydd mewn safle datblygu.

## Ardal yr astudiaeth

Mae De-ddwyrain Cymru yn cynnwys rhai o brif ardaloedd trefol Cymru ac mae'n gartref i brifddinas Cymru, Caerdydd. Mae gan yr ardal hanes diwydiannol cyfoethog, gan gynnwys diwydiant glo Cymoedd De Cymru – a oedd yn allforio 13 miliwn o dunelli o lo ar ei anterth yn y 1880au – gweithfeydd dur Casnewydd a dociau Caerdydd. Mae'r gorffennol diwydiannol hwn yn Ne Cymru wedi llunio'r dirwedd, gan ddylanwadu ar leoliad aneddiadau, sianeli cyrsiau dŵr a lleoliad llystyfiant ledled yr ardal.

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae De-ddwyrain Cymru yn cwmpasu tua 2,800km² ac yn ymestyn o Gas-gwent, lle mae afon Gwy ac afon Mynwy yn ffurfio ei ffin i'r dwyrain, ac ar hyd arfordir De Cymru hyd at y Pîl, lle mae afon Cynffig yn ffurfio ei ffin i'r gorllewin. I raddau helaeth, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ffurfio ffin ogleddol yr awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru.

## Polisi a strategaeth

Mae deddfwriaeth a pholisïau allweddol wedi'u hadolygu fel rhan o'r Asesiad, ac mae hyn yn cynnwys polisïau a strategaethau cenedlaethol fel Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, a Pholisi Cynllunio Cymru. Hefyd, mae dogfennau rhanbarthol fel Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd wedi'u hadolygu i ddeall polisïau penodol ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y rhanbarth.

Mae TAN 15 a pholisi perygl llifogydd hefyd wedi'u hadolygu a'u hamlinellu mewn perthynas â pherygl llifogydd yn yr adran hon.

## Perygl llifogydd

Mae'r Asesiad wedi nodi perygl llifogydd o bob ffynhonnell ledled ardal yr astudiaeth ac wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r ffynonellau gwybodaeth sydd wedi cael eu defnyddio i ddeall y perygl llifogydd hwn. Mae'r broses gynllunio'n ymwneud yn bennaf â lleoliad derbynleoedd, gan roi ystyriaeth briodol i ffynonellau a llwybrau

posibl a allai roi'r derbynleoedd hynny mewn perygl. Mae'n bwysig, felly, ddiffinio elfennau perygl llifogydd er mwyn defnyddio'r canllawiau hyn mewn modd cyson.

Mae adolygiad wedi'i gynnal o berygl llifogydd o bob ffynhonnell llifogydd ym mhob un o'r deg ardal awdurdod lleol. Dylai'r asesiad hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r atodiadau mapio er mwyn deall perygl llifogydd ar raddfa strategol.

## Canllawiau pellach ar TAN 15

Ar gyfarwyddyd y Gweinidog Newid Hinsawdd, a gafodd ei ddarparu mewn canllawiau a oedd yn cyd-fynd â'r hysbysiad o benderfyniad i ohirio ei weithredu, mae'r Asesiad wedi'i baratoi yn unol â'r fersiwn o TAN 15 wedi'i diweddaru sydd i'w rhoi ar waith o fis Mehefin 2023 ymlaen. Mae rhagor o eglurhad a chyngor wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ers hynny. Mae'r bennod nesaf yn ceisio cyfleu'r cyngor a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf o'r fersiwn newydd o TAN 15. Yn ogystal, mae canllawiau wedi'u darparu ar sut y mae awdurdodau cynllunio lleol yn y rhanbarth yn bwriadu dehongli a chymhwyso'r fersiwn newydd o TAN 15.

Mae'r canllawiau a'r argymhellion yn y bennod hon yn seiliedig ar y canlynol:

Llythyr gweinidogol, 23 Tachwedd 2021. Cyhoeddi atal y fersiwn newydd o TAN 15 tan 1 Mehefin 2023.

Llythyr y Prif Gynllunydd, 15 Rhagfyr 2021. Cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar atal TAN 15, goblygiadau allweddol a chamau gweithredu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

Ymgynghoriadau amrywiol gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth baratoi'r Asesiad.

## Gofynion ar gyfer Asesiad Canlyniadau Llifogydd

Mae asesiadau canlyniadau llifogydd safle-benodol yn cael eu cynnal gan ddatblygwyr, neu ar eu rhan, i asesu peryglon a chanlyniadau llifogydd i safle datblygu arfaethedig a pheryglon a chanlyniadau'r datblygiad hwnnw i dir trydydd parti. Mae cyngor ar baratoi asesiadau canlyniadau llifogydd wedi'i ddarparu fel rhan o'r adroddiad hwn.

## Lliniaru perygl llifogydd a chynllunio ymateb i lifogydd

Mae TAN 15 yn amlinellu'r rôl ategol sydd gan reoliadau cynllunio ac adeiladu o ran rheoli llifogydd a'r gofyniad i ddefnyddio mesurau lliniaru llifogydd a mesurau gwrthsefyll difrod i sicrhau bod canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15 fod yn gydnerth yn wyneb llifogydd ar lefel y safle ac ar lefel yr unedau eiddo hefyd. Lle bo modd, dylai datblygiadau gael eu lleoli ym Mharth Llifogydd 1 (lle mae llai o berygl llifogydd). Nid yw datblygiad sydd dan fygythiad mawr ym Mharth Llifogydd 3 yn cael ei ystyried yn dderbyniol oherwydd canlyniadau cysylltiedig llifogydd, ac mae rhaid peidio â chynnig ceisiadau cynllunio.

Mae cynllunio ymateb i lifogydd yn un opsiwn i helpu rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd. O safbwynt perygl llifogydd, mae cynllunio ymateb i lifogydd yn

gallu cael ei rannu'n fras yn dri cham: cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Mae'r mesurau hyn yn ymwneud â datblygu a chynnal trefniadau i leihau, rheoli neu liniaru effaith a chanlyniadau llifogydd a gwella gallu pobl ac eiddo i amsugno dŵr, ymateb i lifogydd ac adfer ar ôl llifogydd.

Mae cyngor ac arweiniad ar weithio gyda phrosesau naturiol a rheoli llifogydd yn naturiol hefyd wedi'u paratoi.